# Astudiaethau i Robotiaid Cŵn Tywys a thechnoleg wisgadwy i gynorthwyo pobl sydd â nam ar y golwg

GUIDE DOGS
Cymru



# Astudiaethau i Robotiaid Cŵn Tywys a thechnoleg wisgadwy i gynorthwyo pobl sydd â nam ar y golwg

Cafwyd sawl ymgais i ganfod ateb neu ddatrysiad technolegol ar gyfer tywys a fyddai'n galluogi pobl sydd â nam ar y golwg i fynd allan yn annibynnol.

## Edrychwch ar yr astudiaethau yn y dolenni isod ac ystyriwch y pwyntiau isod:

- **www.nsk.com/company/news/2017/press0413b.html**
- **www.dailymail.co.uk/sciencetech/article-3011069/Robots-reins-replace-guide-dogs-Machines-use-tactile-sensors-vibrations-help-people-navigate.html**
- **www.rnib.org.uk/nb-online/i-am-robot-not-guide-dog**
- **www.zdnet.com/article/its-no-robot-guide-dog-but-this-wearable-aims-to-help-blind-people-move-safely**
- **www.fussfreephones.com/post/help-for-the-blind/exclusive-robot-guide-dogs**

**Tasg**

## Gwerthuso Technoleg

- Gwerthuswch y dechnoleg a grëwyd gan bob astudiaeth - ym mha ffordd ydyw'n llwyddiannus? Allwch chi ganfod unrhyw broblemau â'r cynllun? Pa rannau o'r cynllun allech chi eu defnyddio fel ateb ar gyfer tywys?
- Beth all ci tywys ei wneud na all tywysydd robotig ei wneud?
- Yw tystiolaeth wisgadwy yn ateb neu'n ddatrysiad a allai weithio?



Elusen Gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (209617) ac yn yr Alban (SC038979). 9725 03/18

## Mynd yn erbyn rhaglennu – gwneud penderfyniadau greddfol

Tra bod technoleg yn bendant yn rhan o ddyfodol symudedd ar gyfer pobl sydd â nam ar eu golwg, mewn rhai amgylchiadau, gall greddf yr anifail orchfygu hyfforddiant a rhaglennu gan achub bywydau. Mae'r hyn a ddigwyddodd i Dave a'i gi tywys, Quince yn enghraifft o hyn. Mae Cŵn Tywys yn cael eu hyfforddi i gynorthwyo eu perchennog i groesi'r ffordd yn ddiogel a 'cherdded ymlaen' yn ôl cyfarwyddyd. Un diwrnod, teimlodd Dave ei fod yn ddiogel iddynt groesi'r ffordd a dywedodd wrth Quince i 'gerdded ymlaen' ond wrth iddyn nhw gamu ymlaen, rhuthrodd car cyflym heibio iddynt a thynnodd Quince, Dave yn ôl gan achub ei fywyd. Mae'n anodd iawn rhaglennu greddf fel hon, hynny yw meddwl yn gyflym a gwneud penderfyniadau.

Rydym hefyd wedi clywed straeon anhygoel am gŵn tywys yn tywys perchennog i le diogel ar ôl iddo gael ei daro'n wael. Yn yr UD, neidiodd ci tywys ar gledrau'r rheilffordd a llusgo'i berchennog i ddiogelwch gan achub ei fywyd.

Mae angen ci arnon ni i wneud penderfyniadau a defnyddio'i reddf - mae'n rhan o reddf naturiol anifeiliaid ond hefyd yn rhan o'r ymgysylltiad sydd ganddo â'i berchennog. Mae perchnogion Cŵn Tywys yn teimlo bond a pherthynas â'u cŵn sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth. Mae'n bartneriaeth sydd wedi ei seilio ar gydymddiriedaeth, bond neu gwlwm a chyfeillgarwch.

> Nid yw rhoi'ch bywyd yn nwylo robot yn teimlo mor ddiogel ag yw ymddiried yn y ci yr ydych yn ei garu ac sy'n eich caru chithau ac sy'n barod i wneud unrhyw beth i'ch amddiffyn. **John, Perchennog Ci Tywys.**

Mae hefyd nifer o fanteision cymdeithasol a seicolegol o gael ci tywys. Mae'r rhain yn cynnwys cwmnïaeth a chyfrifoldeb - edrych ar ôl eich gilydd a mynd allan gyda'ch gilydd. Ni fydd eich robot tywys yn edrych arnoch yn ymbilgar os na fyddwch yn mynd ag ef allan am dro am rai dyddiau. Mae angen i gi tywys adael y tŷ sy'n golygu fod pobl sy'n berchen ar gŵn tywys yn fwy tebygol o fynd allan, bod yn gymdeithasol a byw bywydau annibynnol. Mae bod yn berchen ar gi yn eu symbylu i wneud hyn yn fwy nag yw defnyddio darn o dechnoleg all gael ei roi heibio'n hawdd.

**Mae perchnogion cŵn tywys yn dweud wrthym mai cydbwysedd o'r ddau sydd orau.**

> Ci tywys a thechnoleg yw'r rysáit ar gyfer annibyniaeth a gwir deithio annibynnol. **Martin**



**www.guidedogs.org.uk**